| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **18 IONAWR 2024** |
| TEITL | **GWEITHREDU PENDERFYNIADAU Y PWYLLGOR** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO DIWEDDARIAD AR WEITHREDU PENDERFYNIADAU BLAENOROL Y PWYLLGOR** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio, fel bod modd i'r aelodau gael sicrwydd fod eu penderfyniadau yn cael sylw.

1.2 Mae hyn yn cyfrannu at roi sicrwydd I'r aelodau fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithredu'n effeithiol.

1.3 Mae'r eitem hon yn gyfle i holl aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y penderfyniadau a wnaed. Lle mae'r weithrediad wedi ei gwblhau, neu lle nad oedd gweithrediad pellach yn angenrheidiol, mae'r llinell yn cael ei dynnu o'r tabl ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y mater.

## 2. PENDERFYNIADAU ERS SEFYLDU'R CYNGOR NEWYDD (MAI 2022)

**Cyfarfod 17 Tachwedd 2022**

| **Eitem** | **Penderfyniad** | **Diweddariad** |
|---|---|---|
| ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION A GWELLA GWASANAETH 2021/22 | • Derbyn bod trefniadau a pherfformiad y Cyngor yng nghyswllt ymdrin â chwynion a gwella gwasanaeth yn effeithiol iawn<br>• Bod yr adroddiad, i'r dyfodol, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn y Cabinet<br><br>Awgrymiadau:<br>• Cynnwys sylw ar yr effaith gadarnhaol mae cwynion yn cael ar berfformiad y Cyngor<br>• Cynnwys crynodeb o'r prif feysydd / meysydd datblygol sydd yn derbyn cwynion<br>• Categoreiddio neu osod cyd-destun ehangach ar gyfer yr adrannau hynny sydd yn derbyn y mwyafrif o gwynion, fel bod modd deall yr amgylchiadau<br>• Y Cadeirydd i ail ymweld â chyfrifoldebau'r Pwyllgor - a oes angen rhoi trosolwg ar 'holl adrannau'r Cyngor' (gan gynnwys Gwasanaethau Gofal ac Addysg sydd â threfn statudol eu hunain)? | **Yr adroddiad diweddaraf am y flwyddyn 2022/23 wedi ei gyflwyno i Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 7 Medi 2023 ac i'r Cabinet 19 Medi 2023.** |

**Cyfarfod 9 Chwefror 2023**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| DIWEDDARIAD AR ADRODDIADAU SYDD WEDI EU CYHOEDDI YN DDIWEDDAR GAN ARCHWILIO CYMRU | • Derbyn yr adroddiad ac ymateb y rheolwyr i argymhellion 'Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021<br>• Cyflwyno adroddiad ymhen 6 mis i ddiweddaru'r Pwyllgor ar drosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i is-bwyllgor grymusol Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd fel bod modd symleiddio llywodraethu ac osgoi dyblygu rhwng y ddau gorff<br>• Derbyn yr adroddiad ac ymateb y rheolwyr i argymhellion ''Diweddariad ar Gynnydd Datgarboneiddio" | **O safbwynt trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i is-bwyllgor grymusol Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd, mae'r cynllun yn symud yn ei flaen ar lefel rhanbarthol. Dyddiad targed trosglwyddo yw 1 Ebrill 2024. Disgwylir diweddariad yn Pwyllgor Chwefror 2024.** |

**Cyfarfod 25 Mai 2023**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL | • Derbyn yr adroddiad.<br>• Cefnogi gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol.<br>• Cyfeirio 3 maes cyfyngedig i'r Gweithgor Gwella.<br>1. Cynllunio – Trefniadau Cyfarthrebu<br>2. Mesurau Diogel Amddiffyn Rhyddid<br>3. Manddaliadau | **Oherwydd absenoldeb salwch hirdymor yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, nid yw'r Gweithgor Gwella Rheolaethau wedi cyfarfod eto.** |
| ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL | • Derbyn yr adroddiad yn unol a gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2022/23.<br>• Ail-sefydlu Gweithgor Gwella Rheolaethau. | **Gweler uchod parthed y Gweithgor Gwella Rheolaethau.** |

**Cyfarfod 14 Rhagfyr 2023**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| GWEITHREDU PENDERFYNIADAU Y PWYLLGOR | Derbyn yr adroddiad.<br><br>Nodyn:<br>Cyflwyno i gyfarfod 8fed o Chwefror 2024<br>• Datganiad Llywodraethu (adroddiad canol blwyddyn)<br>• Cyflwyno diweddariad ar drosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i Is-bwyllgor grymusol Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd | **I'w gyflwyno yn Pwyllgor Chwefror 2024.** |
| ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU | Derbyn yr adroddiadau a nodi'r wybodaeth<br>• Adolygiad Strategaeth Ddigidol – cymeradwyo ymateb Cyngor Gwynedd i argymhellion Archwilio Cymru | **Dim gweithrediad pellach.** |
| CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL (1 Hydref 2023 – 30 Tachwedd 2023) | Derbyn yr adroddiad a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol. | **Dim gweithrediad pellach.** |
| CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2023/24 | Derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd yn erbyn Cynllun Archwilio 2023/24. | **Dim gweithrediad pellach.** |
| HUNANASESIAD O EFFEITHLONRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU | Derbyn yr adroddiad a phenderfynu cynnal hunanasesiad effeithlonrwydd, wyneb yn wyneb cyn Mai 2024. | **Dim gweithrediad pellach.** |
| RHEOLAETH TRYSORLYS 2023 – 2024 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN | Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth. | **Dim gweithrediad pellach.** |
| CYNGOR GWYNEDD – CYNLLUN MANWL ARCHWILIO CYMRU 2023 | Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth. | **Dim gweithrediad pellach.** |

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried cynnwys y tablau uchod a chynnig unrhyw sylwadau.